Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** Swyddog Monitro Contractau – Tîm Comisiynu Gofal Cymdeithasol a Chymorth Tai

**Lleoliad:** Gweithio Ystwyth

**Cyfarwyddiaeth:** Gwasanaethau Cymdeithasol

**Cyfeirnod:** BG03544

**Cyflog:** Gradd 7 (£36,124 - £39,513) y flwyddyn)

**Statws Contract:** Llawn amser (37awr), Swydd barhaol

**Math Swydd:** Allanol

Mae cyfle prin a gwerth chweil wedi codi o fewn y Tîm Contractau a Chomisiynu ar gyfer unigolyn proffesiynol, brwdfrydig a hyderus. Fel Swyddog Monitro Contract byddwch yn medru gweithio'n effeithlon fel rhan o dîm prysur ac ar eich pen eich hun, yn defnyddio eich cymhelliant. Bydd angen i chi ddatblygu ac adeiladu ar berthynas waith dda gyda chydweithwyr, uwch swyddogion a gweithwyr proffesiynol eraill o fewn yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol annibynnol a thrydydd sector. Byddwch yn gyfrifol am fonitro perfformiad a chydymffurfiaeth darparwyr gwasanaeth gyda safonau cyfredol a chontractau'r Awdurdod Lleol fel y cânt eu nodi mewn deddfwriaeth i sicrhau y comisiynir y gwasanaethau o'r ansawdd gorau posibl ar gyfer dinasyddion Blaenau Gwent. Mae'r gallu i fod yn hyblyg a chyfathrebu'n effeithlon yn hanfodol gan y disgwylir i chi gynnal ymweliadau a gyhoeddir ymlaen llaw a hefyd ddirybudd i ddarparwyr gwasanaeth ac ymgysylltu gyda gweithlu'r darparydd ac unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth.

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.**

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.**

**Dyddiad Cau:** **27.2.25 – 12:00am, canol nos**

**Dyddiad Cyfweliadau:** **24.3.25**